

Tasg 3

(Heriol, sbardun 3)

Dychmygwch eich bod chi'n un o'r rhai oedd yn ceisio hawlio record "Y person cyntaf i feicio o'r arfordir i Begwn y De." Rydych chi hanner ffordd drwy'r daith ac rydych chi'n clywed bod Maria wedi cyrraedd.

Yn eich pabell y noson honno, rydych chi'n ysgrifennu llythyr at Maria.

Beth rydych chi'n ei ddweud yn eich llythyr?
Cofiwch sôn am eich profiadau chi a sut rydych chi'n teimlo.